

Cofnodion cyfarfod y **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** a gynhaliwyd yn
Siambwr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, nos Lun, 12 Tachwedd am 6:45p.m.

PRESENNOL: Y Cyngorwyr Stephen Beach, Gavin Harris, Ken Hawkins, Ian Lewney, John Wynne Hughes, Robert Owen-Ellis, Heather Williams ac Ifan Wyn.

34. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

35. DATGAN BUDDIANNAU

Gwnaeth y Cyngorydd Ian Lewney ddatgan budd yng nghais 02/2018/0952 – 48 Bryn Rhydd, Rhuthun gan mai ei gyflogwr oedd yr ymgeisydd.

36. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 8 Hydref 2018 yn gywir.

37. MATERION YN CODI

Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

38. PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO

Adroddodd y Clerc y derbyniwyd y penderfyniad cynllunio a ganlyn gan Gyngor Sir Ddinbych: 02/2018/0343 – Tir yn (rhan o ardd) The Nooke, Bryn Goodman, Rhuthun – Dymchwel garej, adeiladu annedd sengl, addasiadau i'r dreif presennol a gwaith cysylltiedig – Gwrthodwyd

39. CEISIADAU CYNLLUNIO

Ystyriodd y Pwyllgor y ceisiadau a ganlyn a gyflwynwyd am sylwadau gan Gyngor Sir Ddinbych.
PENDERFYNWYD: *nad oedd unrhyw wrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio a ganlyn.*

02/2018/0889 – Tir Glasdir, Rhuthun

Amnewid mathau o dai ar blotiau 201-242 (diwygio'r cynllun a gymeradwywyd yn flaenorol, 02/2006/0900/PR).

02/2018/0952 – 48 Bryn Rhydd, Rhuthun

Adeiladu estyniad ac addasiadau i'r annedd.

02/2018/0967 – HSBC, 1 Sgwâr Sant Pedr, Rhuthun

Mewnosod 2 dreiddiad yn y waliau mewnol i ganiatáu gwaith lliniaru Radon.

02/2018/0984 – 40 Stryd y Rhos, Rhuthun

Amrywio amod 2 caniatâd cynllunio cod 02/2018/0984 i ganiatáu dyluniad diwygiedig.

02/2018/1025 – Tir yng Nghanolfan Fusnes Birch House, Hen Lôn Parcwr, Rhuthun

Adeiladu 4 uned ddiwydiannol ysgafn a gwaith cysylltiedig.

02/2018/0942 – Fron Haul, Llanfwrog, Rhuthun – cynllun diwygiedig

Dymchwel yr annedd sy'n bodoli, adeiladu annedd newydd, gosod pecyn trin carthion a gwaith cysylltiedig.

Nid oedd gan yr aelodau unrhyw wrthwynebiad i'r cynllun diwygiedig, ond mae'r sylwadau ynghylch y cais gwreiddiol yn parhau sef; petai caniatâd cynllunio'n cael ei roi, iddo fod yn ddarostyngedig i amod i sicrhau bod yr annedd gwreiddiol, neu'r adeiladau allanol, yn cael eu dymchwel a dileu hawliau datblygu a ganiateir, yn unol â Pholisi RD4 – Adnewyddu Anheddau sy'n bodoli eisoes, Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych.

02/2018/0641 – 39 Stryd y Ffynnon, Rhuthun – cynllun diwygiedig

Newid defnydd o A1 manwerthu i A3 tafarn 'feicro'.

Penderfynodd yr aelodau na fedrent wneud sylwadau ar y cais isod:

02/2018/0945 – 9 Cae Castan, Rhuthun – Adeiladu estyniad ac addasiadau i'r annedd gan fod cynllun y safle yn annigonol i alluogi deall effaith yr estyniad arfaethedig ar eiddo cymdogion.

PENDERFYNWYD: *hysbysu Adran Gynllunio Cyngor Sir Ddinbych yn unol â hynny a gofyn am*

gynllun safle manwl.

40. HYSBYSIAD APÊL CYNLLUNIO

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried a oedd ganddynt unrhyw sylwadau pellach ynghylch apêl cynllunio a gyflwynwyd gan Mr Justin Astbury ynghylch Y Fron, Stryd Mwrog, Rhuthun – adeiladu annedd sengl a chreu mynediad newydd i gerbydau i wasanaethu'r annedd sy'n bodoli eisoes (Cyfeirnod y Swyddfa Gymreig APP/R6830/A/18/3213259).

PENDERFYNWYD: *nodi'r hysbysiad ac nad oedd rhagor o sylwadau yng nghyswllt y cais cynllunio.*

41. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD: *mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd nos Lun, 3 Rhagfyr 2018 am 6:45pm.*